# Adroddiad yr *Ŵyl Pryfed Cop* – 112 o rywogaethau o bryfed cop, ac yn cyfrif...



Yn ystod mis Mai 2012, cynhaliwyd cyfres hynod lwyddiannus o ddigwyddiadau'n rhoi sylw i bryfed cop yng Ngogledd Cymru. Bu Cofnod, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Arachnolegol Prydain, yn helpu i drefnu'r hyn a fedyddiwyd yn "*Ŵyl Pryfed Cop* – Pythefnos o Ffocws ar Bryfed Cop".

Cychwynnodd yr Ŵyl Pryfed Cop gyda Chwrs Adnabod Pryfed Cop yng Ngerddi Botaneg Treborth, Bangor ar y 13eg o Fai 2012. Roedd deuddeg o bobl yn bresennol ar y diwrnod a chawsant grynodeb cyffredinol o bryfed cop Prydain, eu bioleg, eu hecoleg a'r dulliau o'u hadnbaod. Hefyd, cyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol i dechnegau/offer samplu pryfed cop a chawsant gyfle i ddefnyddio'r rhain ar dir y gerddi, gan gasglu samplau ar gyfer eu hadnabod yn y prynhawn.

Ymunodd chwech o gyfranogwyr y cwrs â mi ar y 23ain o Fai 2012 i arolygu pryfed cop ym Mryn Pydew, gwarchodfa gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ger Llandudno. Roedd y niwl o'r môr yn cadw'r tymheredd i lawr yn y bore wrth i ni chwilio'r coetir ond roedd hwn wedi diflannu erbyn i ni gyrraedd allan i'r glaswelltir/palmant calchfaen. Defnyddiodd yr arolygwyr amrywiaeth o dechnegau samplu (palu, curo, codi cerrig, taflu rhwyd a samplu gwactod), gan lunio rhestr o 23 o rywogaethau o bryfed cop, carw'r gwellt a ffugsgorpion. Un darganfyddiad diddorol iawn oedd benyw yr *Ozyptila sanctuaria*, pryf cop cranc bychan iawn gyda chramen bridd sy'n newydd i'r warchodfa a dyma'r pumed lleoliad yn unig yng Ngogledd Cymru ar gyfer y rhywogaeth yma. Yna aethom am dro yn gynnar gyda'r nos i'r Gogarth i weld dau o'r pryfed cop arbenigol sy'n byw yno: *Atypus affinis* a *Segestria bavarica*.



Yn ystod penwythnos hir y 25–28ain Mai 2012, daeth Cymdeithas Arachnolegol Prydain i ganolfan faes Plas Tan y Bwlch ar gyfer eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'u penwythnos maes. Arolygodd y gymdeithas nifer o safleoedd: GNG Hafod Garegog, Traeth Glaslyn, Coed Crafnant, Yr Wyddfa a'r Plas ei hun – yn naturiol! Hefyd, cymerodd rhai aelodau ran mewn gweithdy adnabod pryfed cop pellach ar brynhawn y 26ain o Fai.

Mae canlyniadau'r sesiynau arolygu'n anghyflawn o hyd, ond mae'r canlyniadau cyntaf i'w gweld isod ar ffurf tabl. Daethpwyd ar draws y pryfed cop diddorol a ganlyn yn ystod arolwg CAP: *Dolomedes fimbriatus* (Hafod Garegog); *Halorates distinctus* a *Theridiosoma gemmosum* (Traeth Glaslyn).

Mae'r *Theridiosoma gemmosum* ariannaidd yn gofnod is-sirol newydd i Sir Feirionnydd. Darganfuwyd *Scotophaeus blackwalli* a *Pseudeuophrys lanigera* yn adeiladau'r ganolfan faes ac mae'n ymddangos bod y ddau yma'n gofnodion newydd i Sir Feirionnydd hefyd!

Cofnododd arolygon yr *Ŵyl Pryfed Cop* gyfanswm o 112 o rywogaethau amrywiol o bryfed cop, un rhan o chwech yn fras o ffawna pryfed cop Prydain! Y gobaith ydi bod y digwyddiad yma wedi ysgogi diddordeb mawr mewn pryfed cop a gwerthfawrogiad o'r gwaith o'u cofnodi yng Ngogledd Cymru.

***Richard Gallon – Cofnodwr Pryfed Cop Gogledd Cymru***

**Nifer y rhywogaethau arachnid a gofnodwyd yn ystod yr *Ŵyl Pryfed Cop***

| Safle | Pryfed Cop | Carw'r Gwellt | Ffugsgorpion |
|---|---|---|---|
| Bryn Pydew | 23 | 1 | 1 |
| Y Gogarth | 2 | 0 | 0 |
| GNG Hafod Garegog | 65 | 2 | 0 |
| Traeth Glaslyn | 26 | 0 | 0 |
| Coed Crafnant | 21 | 1 | 0 |
| Plas Tan y Bwlch | 8 | 2 | 0 |
| Yr Wyddfa | 16 | 1 | 0 |
| Cyfanswm rhywogaethau'r *Ŵyl Pryfed Cop* | 112 | 3 | 1 |

British Arachnological Society

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service